

Cân y Mynyddoedd/ Canciones de las Montañas

Cyfnod un: Santander, Colombia, Hydref – Tachwedd 2019

Crynodeb byr iawn i'n ffrindiau a'n cefnogwyr



Gellir defnyddio llawer o eiriau i ddisgrifio profiad, neu ei grynhoi i ychydig eiriau. Weithiau, gall gormod o eiriau ein rhwystro, ac felly, yn yr achos hwn, byddwn yn ceisio bod mor gryno ac eglur â phosib. Yn hydref 2019 – blwyddyn leithoedd Lleiafrifol Unesco – aeth criw bychan iawn o gerddorion Cymreig i ranbarth fynyddig Santander yng ngogledd Colombia. Roeddem yn ymateb i wahoddiad i fod yn rhan o ddathliadau Diwrnod Anibynnïaeth yn Simacota, un o bentrefi harddaf y byd; a gwahoddiad arall i gymryd rhan mewn gwyl ddeuddydd i ddathlu cerddoriaeth draddodiadol yn Bucaramanga, prifddinas ranbarthol Santander. Cafodd ein taith ei ariannu yn rhannol gan **Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru**, ac yn rhannol gan gyfres o gyngherddau codi arian a gynhaliwyd gennym rai misoedd ymlaen llaw. Mawr yw ein diolch i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru – ni fyddem wedi llwyddo i wireddu'r daith hon heb eu cefnogaeth a'u hanogaeth.

Aelodau gwreiddiol ein criw oedd Iestyn Tyne, ffidlwyr traddodiadol a bardd; Osian Morris, canwr-gyfansoddwr; Gwilym Bowen Rhys, canwr, gitarydd a ffidlwyr; Javier Sanchez Rodriguez – Colombiad o Gorris yng Ngwynedd a ddaeth ar y daith fel dehonglwr diwylliannol yn wreiddiol, ond ddaeth yn gymaint mwy na hynny; a Meic Llywelyn, a fyddai'n disgrifio ei hun fel rheolwr y daith pe na bai pawb yn chwerthin am ei ben am ddefnyddio'r term



hwnnw. Ychwanegwyd at y grŵp gyda dyfodiad Mateo Santero Peña, bardd perfformiadol a deithiodd am ddeuddeg awr ar fws o'r ffin â Panama i dreulio'r wythnos yn ein cwmni; Beatriz Cecilia 'Chechi' León, bardd o dref gyfagos San Gil; a Camilo Andrés Hernández Orduz, pencerddor y

tiple, arweinydd y band traddodiadol *La Pie de la Cuenta*, a threfnydd noson gala i ddathlu cerddoriaeth y *tiple* yn ninas Bucaramanga.

Roeddem yng Ngholombia am bron i bythefnos, ac yn y pen draw, bu i ni berfformio mewn mwy o ddigwyddiadau byrffyr a byr-rybudd nag oedd o ddigwyddiadau ar y rhaglen wreiddiol. Cafwyd perfformiadau mewn ysgolion a chanolfannau celfyddydol, ar ffermydd, mewn dathliadau i nodi'r flwyddyn newydd frodorol, ac o gwmpas y tân. Buom yn cydweithio gydag ystod o berfformwyr Colombiaidd; yn feirdd perfformiadol, yn gerddorion *tiple*, yn gorau ysgol, yn grwpiau drama ac yn fandiau gorymdeithiol. Bu i ni rannu llwyfannau â thafleisyddion a phypedwyr. Roedd yn gyfnod prysur a dwys, a'r gamp fwyaf yw ceisio rhoi bys ar y profiadau a'r deilliannau mwyaf 'pwysig' neu 'arwyddocaol'. Cawsom y cyfle i berfformio'n fyw a chael ein cyfweld ar deledu, ein ffrydio yn fyw ar y cyfryngau cymdeithasol, a'n cyfweld gan y wasg genedlaethol – yn ogystal â sgwrsio drwy'r nos â myfyrwyr, *campesinos* a'u teuluoedd. Roedd pob eiliad yn bwysig ac yn arwyddocaol, ac mae'r profiad wedi newid pob un ohonom.



Mae'n debyg mai'r un oedd teimlad ein gwsteiwyr a'n cynulleidfaoedd. Dywedodd Catherine Lizirazu o Fwrdeistref Simacota mai'r rhodd mwyaf i'w phentref hi oedd "Hapusrwydd – a gwybodaeth o'r newydd; chwilfrydedd i ddysgu am ddiwylliant oedd yn gwbl ddieithr i ni, a chael clywed synnau cwbl wahanol. Fe wnaeth Cerrig Camu adael argraff ar bobl Santander, trwy rannu eu diwylliant, eu profiadau, eu cerddoriaeth a'u celfyddyd. Roedd yn syndod i ni, er bod pellteroedd maith

yn gwahanu ein diwylliannau, bod gennym eto gymaint yn gyffredin. Maent yn bobl fonheddig iawn." Teimlai bod cynulleidfaoedd ar hyd y daith yn "orfoleddus, wedi eu synnu, dan deimlad o weld offerynnau cerddorol newydd, o glywed iaith newydd mewn caneuon yn ennyn llawenydd ac yn troi cerddoriaeth yn iaith fyd-eang. Roedd ffarwelio ar ddiwedd eu cyngerdd gyda 'Pueblito Viejo', cân sydd mor bwysig i bobl Santander, yn llais Gwilym Bowen Rhys a chyda'r feiolin, y gitâr a'r tiple yn cydseinio, yn gadael atgof prydfferth i'w cynulleidfaoedd."

Ychwanegodd David León o San Gil: "Fe wnaeth y cyhoedd ymateb yn ffafriol o ran eu derbyniad, eu pleser a'u mwynhad o ansawdd ac amrywiaeth eu celfyddyd gerddorol, a'r modd y gwnaethant gyfuno eu harddull artistig â'n cerddoriaeth ni. Fe wnaeth rhai pobl eu dilyn i'w perfformiad nesaf yn y dref nesaf ar ôl eu gweld am y tro cyntaf."

Roedd Deniesa Bourne o Grandes Genios, 'Prifysgol i Blant' yn Socorro, yn sicr bod "plant ac oedolion fel ei gilydd wedi eu hysbrydoli a'u cymell i ddysgu mwy, ac yn hapus iawn hefyd. Roedd y cyfranogwyr yn gymaint rhan o'r profiad fel nad oedd iaith yn rhwystr, ond yn rhywbeth i'w fwynhau i'r eithaf." Mae cymaint y gallem oll ei ddweud. Yr hyn y gallwn ei wneud hyd sicrwydd, fodd bynnag, yw cofnodi rhai o ddeilliannau ymarferol y prosiect hyd yma:



- Rydym wedi cytuno i drefnu cyfres o berfformiadau yma yng Nghymru yng Ngorffennaf ac Awst 2020, yn cynnwys beirdd, cerddorion a dawnswyr, ac yn datblygu ymhellach y perthnasau yr ydym wedi eu magu hyd yma
- Byddwn hefyd yn trefnu ymweliad gan yr ymgyrchydd iaith Wayuu a'r gwneuthurwr ffilmau dogfen, Heidi van Grieken, i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac asiantaethau normaleiddio iaith yma yng Nghymru
- Byddwn yn parhau yn ein trafodaethau â'r Brifysgol Frodorol Awtonomaidd yn Cauca (de Colombia) gyda'r bwriad o ddatblygu perthnasau cytbwys a chyfleoedd i berfformio.
- Rydym wedi cytuno i helpu Casa dos Libros Total, San Gil (canolfan gelfyddyd a threftadaeth hynod gyffrous a chreadigol) i ddatblygu perthnasau â chanolfan debyg yng Nghymru. Rwyf yn paratoi i gael trafodaethau amdanynt gyda Galeri yng Nghaernarfon, Y Tabernacl ym Machynlleth, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Byddwn yn creu cyswllt rhwng Ysgol Gelf Grandes Genios ym Mhrifysgol Socorro a Theatr Felinfach yng Ngheredigion i rannu syniadau a datblygu rhyngweithio traws-lwerydd. Byddwn yn cydweithio â nhw ar yr un pryd i ddatblygu'n perthynas ein hunain.



Mae mor anodd dyfalu beth fydd y buddion yn y tymor hir. Pwy all ragweld sut y bydd rhythmau Vallenato neu synnau'r *tiple* yn dod i'r wyneb yng nghaneuon Osian Morris, neu ym mha fodd y bydd rhythmau a churiadau rap Affro-Caribiaidd yn dod i'r amlwg yn rhai o gerddi lestyn Tyne yn y dyfodol? Pwy all ddychmygu, ar hyn o bryd, a fyddai'r heriau sy'n wynebu iaith a diwylliant y Wayuu yn cael ei lliniaru rhywsut trwy gyswllt â siaradwyr a cherddorion yma yng Nghymru? A fydd y sianel sydd wedi ei hagor yma wedi ei hail-lenwi ymhenn rhai blynyddoedd, neu a fyddwn, cyn hir, yn gweld tramwyfa greadigol a deallusol yn llifo rhwng mynyddoedd Santander a rhai'r Gymru wledig? Fel y dywedodd Chou En-Lai am effeithiau'r Chwyldro Ffrengig, "Mae hi'n dal i fod yn rhy gynnar i ddweud."

Yr hyn y gallwn fod yn sicr ohono yw ein bod wedi ein newid, fel unigolion ac fel perfformwyr, o ganlyniad i'r profiad hwn; ac fe allwn ddweud yr un fath am ein cyfeillion yng Ngholombia. Mae ein ffordd o weld y byd wedi datblygu – felly hefyd ein dyheadau. Mae cannoedd o bobl yn rhanbarth Santander bellach yn ymwybodol o Gymru a'i diwylliant, ac wedi mwynhau yr hyn y bu iddynt ei weld a'i glywed. Mae pob un ohonom wedi dychwelyd yn teimlo'n freintiedig iawn, wedi i ni rannu a dysgu gan gân y mynyddoedd yn Santander. Rydym yn ddiolchgar i Robin Oisín am ei lety yn La Vega, ein dihangfa heddychlon fry yn y mynyddoedd; ac i'r holl ffrindiau eraill yn y ddwy wlad fu o gymorth, yn eu hamryw ffyrdd, ar hyd y daith hon.



Meic Llewellyn, Tachwedd 2019.